

TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD UNIGOL A DWYRADD)

Pam dewis TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)?

Mae'r consortiwm City & Guilds/CBAC TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn addas i chi os ydych chi rhwng 14 ac 16 oed ac mae gennych ddi-ddordeb mewn dysgu am ddatblygiad a gofal unigolion drwy gylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae'n addas os ydych chi wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu os nad oes unrhyw wybodaeth flaenorol gennych o'r sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i chi am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol y gylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach.

Byddwch yn cael y cyfle i feithrin eich dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddwch hefyd yn meithrin dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain. Byddwch yn ennill dealltwriaeth o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i gynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru sy'n foeseogol a chynaliadwy. Hybu dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i chi ymchwilio i faterion a thestunau gofal o'ch dewis eich hunain. Llunnir cynnwys y pwnc a gofynion yr asesiad i sicrhau eich bod yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eang priodol ym maes Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, byddwch yn gallu:

- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyddestunau Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- ymwneud yn weithredol ag astudio Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i ddatblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar
- gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau ar effeithiau gwasanaethau Iechyd, gofal cymdeithasol, a gofal plant ar gymdeithas ehangach
- ystyried y ffaith y dylai ymarfer ym maes Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant fod yn foeseogol a chefnogi system Iechyd a gofal gynaliadwy
- datblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i Iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gan gynnwys defnyddio a dehongli data
- datblygu ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD UNIGOL A DWYRADD)



Sut byddaf yn cael fy asesu?

Gradd Unigol		
Uned 1: Twf dynol, datblygiad a llesiant dynol; asesu drwy arholiad ysgrifenedig.		
<ul style="list-style-type: none">1 awr 30 munud40% o'r cymhwyster Gradd Unigol (20% o'r cymhwyster Dwyradd)	<ul style="list-style-type: none">80 marcnaill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig	<ul style="list-style-type: none">amrywiaeth o fathau o gwestiynaumae pob cwestiwn yn orfodol
Uned 2: Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant; asesu drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.		
<ul style="list-style-type: none">tua 25 awr	<ul style="list-style-type: none">60% o'r cymhwyster Gradd Unigol (30% o'r cymhwyster Dwyradd)	<ul style="list-style-type: none">120 marc
Tasg 1: Darparu Gwasanaeth <ul style="list-style-type: none">tua 10 awr40% o'r marciauymchwiliad darparu gwasanaethau a fydd yn asesu'ch gwybodaeth, sgiliau a'ch dealltwriaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant	Tasg 2: Hybu Iechyd <ul style="list-style-type: none">tua 15 awr60% o'r marciautasg sy'n asesu eich gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â hybu a chynnal iechyd a llesiant.	
Dwyradd Unedau 1 a 2 yn ogystal â:		
Uned 3: Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif; asesu drwy arholiad ysgrifenedig.		
<ul style="list-style-type: none">1 awr 30 munud20% o'r cymhwyster Dwyradd	<ul style="list-style-type: none">80 marcnaill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig	<ul style="list-style-type: none">amrywiaeth o fathau o gwestiynaumae pob cwestiwn yn orfodol
Uned 4: Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol; asesu drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC.		
<ul style="list-style-type: none">tua 25 awr30% o'r cymhwyster Dwyradd120 marc	Gweithgaredd i ddiwallu angen <p>Mae'r dasg hon yn asesu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â gweithgareddau ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol grŵp targed sydd wedi'i ddewis, ac sy'n helpu i hybu hunaniaeth, hunanwerth, ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch.</p>	

Gyrfaoedd gyda TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Mae'n rhoi sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar safon UG neu Uwch, yn ogystal â darparu sylfaen addas ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau Lefel 2 neu Lefel 3 yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Yn ogystal, bydd yn

eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa. Cynlluniwyd y fanyleb hon i gynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foesegol a chynaliadwy yng Nghymru, ac i'ch galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chyfleoedd dysgu pellach neu wneud dewisiadau gyrfaol cysylltiedig.